# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 17-08 (p24) : 12 Mehefin 2008**

## Ymgysylltu Â Sefydliadau Addysg Uwch Yng Nghymru

### Ynglyn â Skillfast-UK

Skillfast-UK yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer ffasiwn a thecstiliau. Fel Cyngor Sgiliau Sector, ni yw llais cyflogwyr ar faterion sgiliau yn ein sector. Drwy ein gwaith o ymgysylltu â chyflogwyr a gwybodaeth am sgiliau, gallwn helpu llunwyr polisïau, asiantaethau datblygu economaidd a chyrff sgiliau i ddeall anghenion sgiliau'r sector nawr ac yn y dyfodol, a beth y gellir ei wneud i gynyddu cynhyrchiant a pherfformiad drwy sgiliau.

Mae dillad, esgidiau a thecstiliau yn sector mawr a bywiog yng Nghymru, sy'n cynhyrchu cyfanswm o £230 miliwn y flwyddyn. Mae diwydiannau arloesol a ffyniannus, fel ffasiwn brandiau a chynllunwyr, tecstiliau technegol ac amrywiaeth o weithgareddau crefft yn gwrthbwyso dirywiad hirdymor diwydiannau traddodiadol y sector.

Er bod 95 y cant o'r holl sefydliadau yng Nghymru yn cyflogi llai na 50 o bobl, mae sefydliadau canolig a mwy yn cyflogi tua 60 y cant o weithwyr y sector yng Nghymru - sy'n ffigur anghymesur o uchel o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae proffil oedran gweithlu'r sector yn pwyso i gyfeiriad y bandiau oedran uwch sy'n berthynol i'r norm yn y DU. Mae llai nag un o bob deg o'r rhai a gyflogir o dan 25 oed, tra bod dwy ran o bump o bobl sy'n gweithio yn y sector yn 45 oed neu'n hyn.

Ar hyn o bryd mae tua 250 o fyfyrwyr yng Nghymru wedi eu cofrestru ar raglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â'r sector.

### Blaenoriaethau cyflogwyr ar gyfer Addysg Uwch

Mae Addysg Uwch yng Nghymru yn cynnig addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, ond mae lle i wella ym meysydd anghenion sgiliau busnes ac ymgysylltu â chyflogwyr.

Mae gwaith ymgysylltu â chyflogwyr a gwybodaeth am sgiliau Skillfast-UK yng Nghymru wedi nodi sut y gellir gwella'r system Addysg Uwch i'w cefnogi yn y gwaith o ddiwallu eu hanghenion sgiliau.

Mae'r pryderon a fynegodd cyflogwyr yn cyfateb yn dda i agenda'r Pwyllgor, yn enwedig:

Effaith Sefydliadau Addysg Uwch ar y farchnad lafur a ph'un a ydynt yn diwallu anghenion busnesau;

cydweithredu rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a'i effaith ar eu heconomïau lleol a rhanbarthol;

addysg entrepreneuriaeth a graddedigion sy'n dechrau arni

Maent wedi eu nodi'n fanylach yn ein Cytundeb Sgiliau Sector i Gymru a'i ddogfennau cysylltiedig

### Polisi Addysg Uwch Cymru

Mae'r strategaeth ddrafft ar Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn nodi'n glir ei bod yn gwrthod dull a gynllunnir o ddiwallu anghenion cyflogwyr ac mae'n galw am wario'r arian ar ddull a arweinir gan alw yn y gweithle. Mae Skillfast-UK yn croesawu'r dull hwn o weithredu gan fod cyflogwyr yn treulio amser sylweddol ar recriwtiaid graddedig newydd yn mireinio'r sgiliau a ddysgwyd mewn rhaglenni Addysg Uwch. I alluogi cyflogwyr i gael eu cydnabod am y gwaith a wnânt, galwn i'r system hon gael ei chyflwyno cyn gynted ag sy'n ymarferol. Cefnogwn y cynnig i ganiatáu i ddarparwyr o safon uchel ddatblygu arbenigedd arbennig i gynnig hyfforddiant i fusnesau ledled Cymru a gefnogir gan y system ariannu newydd y dylid ei chyhoeddi yn 2010.

Mae sicrhau sgiliau technegol yn gofyn am offer drud a staff arbenigol. Hyd yn oed gyda system ariannu a arweinir gan alw, bydd angen cymorth meithrin gallu ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr. Mae Skillfast-UK eisoes yn ymrwymedig i ddatblygu cydberthnasau gwaith â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i gefnogi datblygiad 'rhwydwaith darparwyr' o'r enw "Cynllun Cyffredin" i ddiwallu'r angen hwn. Ar ôl cynnal ein cynhadledd agoriadol ar 8fed Ebrill 2008 gyda Mr John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, yn brif siaradwr, rydym yn rhagweld y byddwn yn datblygu'r rhwydwaith hwn i ddarparu sail gadarn i ymgysylltu â chyflogwyr ym maes Addysg Uwch.

Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn rhoi y dylid cynnig cymorth busnes a chymorth sgiliau drwy system froceriaeth ar y cyd. Cefnogwn hyn oherwydd gall newidiadau mewn strategaeth fusnes greu galw am sgiliau a dysgu. Rydym yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod yr angen i froceriaid feddu ar wybodaeth sy'n benodol i'r sector. Ar hyn o bryd mae Skillfast-UK yn cynnal trafodaethau â'r Cynulliad ynghylch sut y gellir datblygu'r cynnig hwn i gyflogwyr a chyflogeion ac rydym yn obeithiol y byddwn yn gwneud cynnydd sylweddol yn ystod misoedd yr haf.

Mae'n hwb i ni fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried rhoi rhagor o gymorth i Raddau Sylfaen, fel yr argymhellwyd gan Adroddiad Webb, oherwydd mae ganddynt y potensial i gefnogi datblygiad sgiliau lefel uwch sy'n berthnasol i'r gwaith i'r rhai mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, mae gormod o Raddau Sylfaen yn cael eu cynnig yn llawn amser yn unig. Rhaid i Addysg Uwch ystyried sut y gall ddiwallu anghenion dysgwyr anhraddodiadol yn effeithiol, mewn ymdrech i gynyddu nifer y Graddau Sylfaen sy'n cael eu darparu yn y gweithle. Mae Skillfast-UK yn edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr yn y byd academaidd i gytuno ar brosesau i achredu dysgu sy'n seiliedig ar waith, cyrsiau byr a chyrsiau pwrpasol o fewn fframwaith y ddarpariaeth Gradd Sylfaen.

Mae llawer o gyflogwyr yn cydnabod gwerth ymgysylltu ag Addysg Uwch. Fodd bynnag, mae ganddynt bryderon o ran ymrwymo i bartneriaethau sy'n cynnwys ymchwilio a datblygu cynnyrch. Er mwyn i fusnesau gael eu cymell i gydweithredu ag Addysg Uwch, mae angen i sefydliadau roi perchenogaeth rannol i fusnesau o ran unrhyw Eiddo Deallusol a ddaw o weithgarwch o'r fath.

Mae Skillfast-UK hefyd yn poeni nad yw llawer o raddau cynllunio ffasiwn yn paratoi myfyrwyr yn effeithiol ar gyfer gweithio yn y sector oherwydd diffyg sgiliau technegol a masnachol. Byddem yn annog Addysg Uwch i ystyried defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, lle maent ar waith, i alinio eu cynigion i fyfyrwyr â darpar swyddi o fewn y sector.

## Gweithgarwch Addysg Uwch Skillfast-UK

### Rhwydwaith darparwyr (Cynllun Cyffredin)

Ar 20fed Medi 2007 cyfarfu Skillfast-UK â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i drafod cefnogi Sefydliadau Addysg Uwch a diwallu'r anghenion sgiliau a amlinellir yn y Cytundeb Sgiliau Sector. Ers hynny rydym wedi gweithio gyda'r sefydliadau canlynol i ddatblygu'r agenda hwn:

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC)

Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd (UWCN)

Prifysgol Morgannwg

Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Bellach, rydym wedi cynnal ein cyfarfod rhwydwaith Cynllun Cyffredin cyntaf ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr i roi ein Strategaeth Cymwysterau Sector yng Nghymru ar waith.

### Grwpiau Arbenigol mewn Addysg Uwch

Mae Skillfast-UK hefyd wedi bod ynghlwm wrth dri grwp arbenigol sy'n berthnasol i'r sector ffasiwn a thecstiliau:

### Y Grwp Dillad Dyfeisgar a Thechnoleg Wisgadwy

Mae'r grwp hwn yn cynnwys sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sydd â diddordeb mewn dillad dyfeisgar a thechnoleg wisgadwy a'r Sefydliad Tecstiliau. Mae wedi datblygu modiwlau hyfforddiant Lefel 4 mewn cydweithrediad â Choleg Prifysgol Cymru Casnewydd ac mewn partneriaeth ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, a modiwlau hyfforddiant Lefel 3 gyda Choleg Sir Gâr. Cefnogwyd y datblygiad hwn gan y Gronfa Datblygu Gwybodaeth.

### Dynameg Newydd Heneiddio

Mae Grwp Ymchwil Dillad Dyfeisgar a Thechnoleg Wisgadwy hefyd wedi gwahodd Skillfast-UK i'r grwp llywio ar gyfer y prosiect Dynameg Newydd Heneiddio sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Grwp Ymchwil Dillad Dyfeisgar a Thechnoleg Wisgadwy

Mae Grwp Diddordeb Arbennig hefyd wedi ei sefydlu yng Ngholeg Prifysgol Cymru Casnewydd, drwy'r Sefydliad Tecstiliau, ar gyfer Dillad Dyfeisgar a Thechnoleg Wisgadwy a gofynnwyd i Skillfast-UK ymuno â'r grwp hwn.

Mae Skillfast-UK hefyd wedi cael ei wahodd gan Goleg Prifysgol Cymru Casnewydd i drafodaethau cychwynnol ar ysgrifennu rhaglen lefel Meistr mewn Dillad Dyfeisgar a Thechnoleg Wisgadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ddillad sy'n seiliedig ar decstiliau sy'n cynnwys dillad chwaraeon, dillad teithio, dillad gwaith corfforaethol, a dillad arferol i'r "Mwyafrif Defnyddwyr Newydd" (50+), a gynhelir ar 4ydd Mehefin.

### Logisteg a chadwyn gyflenwi

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd hefyd wedi cysylltu â ni ynghylch papur ymchwil y mae'n awyddus i'w ddatblygu sy'n archwilio logisteg a rheoli'r gadwyn gyflenwi ar gyfer ein sector yng Nghymru

### Graddau Sylfaen

Ni chynigir unrhyw Raddau Sylfaen o ran ein sector yng Nghymru er ein bod yn ceisio datblygu rhaglenni galwedigaethol ar hyn o bryd ar gyfer lefelau 4 a 5 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) sy'n cynorthwyo graddedigion cynllunio i feithrin sgiliau ym

maes Datblygu Busnes. Ar lefel y DU mae Linda Florance, ein Prif Weithredwr, ar fwrdd Foundation Degree Forward ac mae'n cyfrannu at ddatblygiad ehangach Graddau Sylfaen.

### Canllawiau ar Yrfaoedd a Hyfforddiant

Mae Skillfast-UK yn cyflogi aelod o staff i gefnogi gweithwyr proffesiynol gwybodaeth, cyngor a chanllawiau a gwasanaethau ehangach Gyrfa Cymru.

Rydym yn cynnal ymgyrchoedd gyrfaoedd gan gynnwys Can U Cut It? - i'r rhai â diddordeb mewn gyrfa ym maes ffasiwn - a Future Textiles, sy'n tynnu sylw at y sector tecstiliau technegol a chyfleoedd gyrfa cysylltiedig.

Mae Skillfast-UK hefyd yn cynhyrchu pecyn Gwybodaeth Marchnad Lafur, proffiliau swyddi (ar ein gwefan "Just the Job") ac yn cynnig gweithdai Gwybodaeth Marchnad Lafur i gynghorwyr gyrfaoedd. Rydym yn bwriadu ffurfioli trefniadau drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gyrfa Cymru maes o law.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Techni-Tex, Partneriaeth Faraday ar gyfer Tecstiliau, i ddatblygu proffiliau Gyrfaoedd ar gyfer y sector a hyrwyddo'r sector.

### Ymchwil i addysgu Dylunio mewn Addysg Uwch

Comisiynodd Skillfast-UK ddarn mawr o waith ymchwil, mewn cydweithrediad â chanolfan bynciol y Sefydliad Addysg Uwch yng Nghanolfan Bynciol Dylunio Celf a'r Cyfryngau yr Academi Addysg Uwch, i edrych ar addysgu Dylunio ar lefel Addysg Uwch, cynnwys cyflogwyr fel rhan o'r broses a sut i wneud rhaglenni gradd yn fwy perthnasol i anghenion y farchnad lafur. Bydd yn cynnwys edrych yn fanwl ar rôl cyflogwyr mewn lleoliadau gwaith, darparu sgiliau technegol a dylunio rhaglenni.

### Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Mae Skillfast-UK yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau lefel uwch yn y gwaith o ddatblygu a chynnal economi Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud defnydd da o'r sgiliau hyn i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i gyflogwyr ac unigolion. I sicrhau y gall cyflogwyr asesu cymhwysedd y gwaith medrus iawn hwn, rydym wrthi'n datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'w defnyddio ar Lefel 4 ac uwch ar gyfer Cynllunio Ffasiwn a Thecstiliau a Thecstiliau Technegol.

### Casgliad

Mae Skillfast-UK yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at adolygiad y pwyllgor o Addysg Uwch yng Nghymru ac mae'n ymddiheuro i'r pwyllgor nad oedd tyst o'r sector ar gael i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Fodd bynnag, byddem yn ddigon bodlon i roi rhagor o fanylion am unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymateb hwn, os bydd aelodau'r pwyllgor am eu cael.

Gellir cysylltu â ni drwy ein Rheolwr Gwlad ar gyfer Cymru, Lynne Abbott. Ffôn: 07834 440121